

Cynllun Atal Llifogydd y Rhath

Cefndir

Fel y gwyddoch eisoes mae'n debyg, mae llawer o gartrefi a busnesau yn ardaloedd y Rhath, Pen-y-lan a Heol Casnewydd mewn perygl o ddiodeff llifogydd o Nant Lleucu ac Afon Rhymini.

Amcangyfrifwn fod gan 440 eiddo yn yr ardal 1 siawns o 100 o fod mewn perygl oherwydd llifogydd mewn unrhyw flwyddyn, o ganlyniad i afon yn gorlifo, llifogydd llanwol neu gyfuniad o'r ddau.

Yn 2013 bu Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwerthuso dichonolrwydd opsiynau i leihau'r perygl o lifogydd yn yr ardal hon. Canfu ein hastudiaeth y byddai effeithiau llifogydd yn sylweddol. Rydym wedi llwyddo i gael arian gan Lywodraeth Cymru i lunio cynllun llifogydd, i ymgynghori â'r gymuned yn ei gyloch, a'i gyflawni.

Stormydd gaeaf 2014

Yn ffodus, ni chafwyd llifogydd sylweddol yn y Rhath yn ystod y gaeaf. Nid oedd y glawiad yn nalgylch Nant Lleucu mor eithriadol â'r hyn a gafwyd mewn mannau eraill yng Nghymru a Lloegr. Rhagwelwyd y byddai'r llanw uchel iawn ar 3 Ionawr wedi bod yn ddigon uchel i greu llifogydd mewn eiddo yn y Rhath, fodd bynnag, nid oedd y gwynt cyn gryfed ag y rhagwelwyd, ac roedd lefel y dŵr ar ei uchaf tua throedfedd yn is na'r hyn a ofnid.

Beth ydym ni'n ei wneud?

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio â phartneriaid i lunio a gweithredu cynllun llifogydd ar gyfer Nant Lleucu gyda chymuned y Rhath. Mae angen gwelliannau mewn mannau rhwng Ffordd Pen-y-lan a chydliwiad Nant Lleucu ag Afon Rhymini ger archfarchnad newydd Morrison's.

Byddwn yn ymgynghori'n eang wrth ddatblygu ein cynigion, cyn ceisio caniatâd cynllunio a chymeradwyaethau angenrheidiol eraill. Rydym yn cydnabod sensitifrwydd a gwerth y parciau rhestredig ac ardal gadwraeth y Rhath i'r ddinas. Ein nod yw datblygu cynllun tirlunio trefol i reoli llifogydd trwy ddefnyddio waliau ac argloddiau llifogydd wedi'u cynllunio'n gywrain, gan wella sianel yr afon a sawl pont briffordd er mwyn cynyddu faint o ddŵr y gall yr afon ei ddal.

Rydym yn awyddus, hefyd, i ymchwilio i gyfleoedd i wella mwynderau a bywyd gwyllt.

Arolygon Daear Mai 2014

Mae angen inni asesu'r tir yn ardal Roath Brook Gardens, Roath Mill Gardens, Waterloo Railway Gardens a Colchester Avenue. Er mwyn gwneud hyn, bydd rhaid i'n contractwr gymryd samplau pridd gan ddefnyddio wyth dyfrdwl, ac rydym yn disgwyl y bydd hyn yn cymryd rhwng tair a phedair wythnos.

Byddwn yn gwneud ein gorau i darfu gyn lleied ag sydd bosibl arnoch, ac yn adfer y tir yn llwyr yn dilyn y profion. Rydym yn hynod o ddiolchgar i chi am eich cydweithrediad parhaus.

Cyfarfod Cyhoeddus 15 Mai 2014

Hoffem gael eich barn cyn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn. Rydym yn gwahodd preswylwyr a busnesau lleol i gymhorthfa galw heibio yng **Nghlwb Rygbi Sant Pedr ar Minster Road, CF23 5AS** ar unrhyw adeg rhwng **2 y pnawn a 6.30 yr hwyr**. Byddwn yn esbonio'r angen am welliannau yn ogystal â'n rhaglen ddylunio. Bydd y tîm yn casglu safbwyntiau a syniadau, ac yn ateb cwestiynau.



// Llifoedd uchel afon yn achosi llifogydd yn Waterloo Gardens ym mis Mehefin 2009



Cysylltwch â ni
Roath@NaturalResourcesWales.gov.uk